# HYSBYSIAD CYHOEDDUS

## GORCHYMYN CYDGYFNERTHU SIR GAERFYRDDIN (LLANELLI) (CYFYNGIADAU AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (AMRYWIAD RHIF 44) 2025

---

**HYSBYSIR** drwy hyn fod Cyngor Sir Caerfyrddin, wrth arfer y pwerau a roddir gan Adrannau 1(1), 2(1) i 2(3), 4, 32(1), 35 a 124 o, a Rhan IV o Atodlen 9 i, Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Rheoli Traffig 2004 a phob pŵer galluogi arall, yn bwriadu gwneud y Gorchymyn uchod.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fyddai:

1. Cyflwyno un lle parcio i Ddeiliaid Bathodyn Anabl yn Unig ym mhob un o'r lleoliadau a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

2. Dirymu “Gorchymyn Cydgrynhoi Sir Caerfyrddin (Llanelli) (Cyfyngiadau Ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) 2004” a “Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Llanelli) (Cyfyngu Ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 38) 2020” i’r graddau y maent yn anghyson â’r cynigion a gynhwysir yma ac yn ymwneud â hyd ac ochrau ffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Hysbysiad hwn.

Ceir manylion llawn y cynnig yn y Gorchymyn drafft, y gellir ei archwilio, ynghyd â'r cynlluniau sydd wedi'u hatodi iddo a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn, yn HWB Gwasanaeth Cwsmeriaid Cyngor Sir Caerfyrddin a leolir yn Rhif 36 Stryd Stepney, Llanelli SA15 3TR yn ystod oriau swyddfa arferol.

Mae copïau o'r dogfennau hefyd:

- ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin drwy https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/hysbysiadau-cyhoeddus; neu

- ar gael yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at Adain Rheoli Traffig y Cyngor ym Mloc 2, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ, neu drwy e-bostio ENTrafficManagement@sirgar.gov.uk.

Os ydych am wrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, anfonwch eich rhesymau dros wrthwynebu yn ysgrifenedig at Steven Murphy, Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP erbyn yr **18fed o Rhagfyr 2025** os gwelwch yn dda, gan ddyfynnu'r cyfeirnod ffeil isod.

Dylai bob gwrthwynebiad neu sylw arall nodi'r sail y cânt eu gwneud.

**Dyddiedig y 26ain dydd o Dachwedd 2025.**

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod Ffeil: HMD/HTTR-1978 | WENDY WALTERS |
| Llinell Uniongyrchol: 01267 224066 | Y Prif Weithredwr |
| Ebost: HeMDavies@sirgar.gov.uk | Neuadd y Sir, Caerfyrddin |

# <u>YR ATODLEN</u>

**GWAHARDDIAD PARCIO**
**(AC EITHRIO CERBYDAU POBL ANABL)**

| **Rhan o'r Ffordd sydd wedi'i Awdurdodi i'w Defnyddio fel Man Parcio ar y Stryd** | **Man Lle Gall Cerbydau Aros** | **Nifer y Mannau Parcio** | **Diwrnodau Gweithredu'r Man Parcio** | **Oriau Gweithredu'r Man Parcio** | **Cyfnod Hwyaf y Gall Cerbydau Aros** |
|---|---|---|---|---|---|
| Y tu allan i Rhif 5 Coedlan Bryndulais, Llanelli SA14 8RS<br><br>Cyfeirnod Teilsen Map CM214 | Yn gyfan gwbl o fewn terfynau'r bae parcio sydd wedi'i farcio ar yr heol gan linell wen doredig. | Un | Bob Dydd | Bob Awr | Anghyfyngedig |
| Y tu allan i Rhif 54 Heol Felinfoel, Llanelli SA15 3JQ<br><br>Cyfeirnod Teilen Map CK214 | Yn gyfan gwbl o fewn terfynau'r bae parcio sydd wedi'i farcio ar yr heol gan linell wen doredig. | Un | Bob Dydd | Bob Awr | Anghyfyngedig |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y tu allan i Rhif 60 ac yn rhannol y tu allan i Rhif 62 Tunnel Road, Llanelli SA15 1LG<br><br>Cyfeirnod Teilsen Map CL217 | Yn gyfan gwbl o fewn terfynau'r bae parcio sydd wedi'i farcio ar yr heol gan linell wen doredig. | Un | Bob Dydd | Bob Awr | Anghyfyngedig |